# Gofalu am y Greadigaeth drwy'r Flwyddyn Litwrgaidd




| DYDDIAD | DIGWYDDIAD NEU DYMOR | THEMA DRADDODIADOL | THEMA GOFAL AM Y GREADIGAETH | ADNODDAU |
|---|---|---|---|---|
| | ***ADFENT*** | Edrych ymlaen at adfent (dyfodiad) Crist a rhag-ddisgwyl Ei ailddyfodiad | Edrych ymlaen at ddyfodiad Mab Duw, a dyheu am ddatguddiad meibion Duw i 'ryddhau'r Greadigaeth o gaethiwed a llygredigaeth' (Rhuf 8:19-21) | Mae gan '*Sustainable Preaching*' archif o bregethau 'gwyrdd' ar gyfer darlleniadau Sul y llithiadur dros y blynyddoedd: http://sustainable-preaching.org/sermon-suggestions/ Trefn Gofal am y Greadigaeth ar gyfer Hwyrol Weddi: https://creationtide.files.wordpress.com/2018/07/5-order-for-night-prayer-11.pdf Rhai rhaglithiau a gweddïau Gofal am y Greadigaeth ar gyfer y Cymun Bendigaid: https://www.churchofengland.org/prayer-and-worship/worship-texts-and-resources/common-worship/churchs-year/times-and-seasons/agricultural-year#mmm340 |
| | ***1*** | Y Patriarchiaid | Gan gymryd golwg ehangach ar y Patriarchiaid fel ffigyrau cyndadol o Adda i Abraham, rydym yn cynnwys Noa, y Cadwriaethwr Bioamrywiaeth cyntaf. Hefyd, y cyfamod beiblaidd cyntaf (gwnaed cyn y cyfamod ag Abraham) a wnaed gyda'i gilydd rhwng Duw, y Greadigaeth gyfan a dynoliaeth. | I fyfyrio ar Noa fel y cadwraethwr cyntaf: https://arocha.org.uk/resources/environment-resource-packs/ |
| | ***2*** | Y Proffwydi | Mae thema gofal am y greadigaeth yn amlwg yn llawer o weithiau'r proffwydi. Mae Eseia'n sôn am y ddynoliaeth yn torri'r cyfamod ('tragwyddol') cyntaf, a'r ddaear o'r herwydd yn dioddef (Eseia 24:5, cm Hag 1:9-11). Mae Jeremeia yn sôn am y ddaear yn galaru oherwydd pechadurusrwydd a diofalwch dyn (Jer 12:4). Disgwylir am greadigaeth newydd pan gaiff y Ddaear ei hadfer i'w chyflwr gwreiddiol o fendith a ffrwythlondeb (Eseia 65:17-25); Hosea 2:21-22) trwy'r hyn a gyflawna'r Meseia (Eseia 11:1-9). | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***3*** | Ioan Fedyddiwr | Mae Ioan Fedyddiwr yn dod o'r anialwch, lle mae presenoldeb Duw i'w deimlo a'i lais i'w glywed. Mae gweld anialwch fel lle o adnewyddiad ysbrydol yn datgan yr angen i'w ddiogelu ac, o bosib, 'ail-wylltio' ardaloedd. | |
| | ***4*** | Y Forwyn Fair | Mae Mair yn rhoi i ni enghraifft ddigyffelyb o ymostwng i alwad Duw a'i ganlyniad fydd creadigaeth newydd. Mae Mair hefyd yn fam i'n Harglwydd, ac eto mae fel ni yn gyd-ddisgybl i Grist. Mae hyn yn cyfateb i gysyniad Sant Ffransis, 'ein chwaer fam ddaear' yng Nghantigl y Creaduriaid: Daear, ein 'mam' yn rhoi i ni enedigaeth gorfforol (o dan arweiniad Ysbryd Duw), ond y Ddaear hefyd fel ein chwaer yng Nghrist, cyd-greadur a chyd-bererin, yn ddiwahân mewn angen am brynedigaeth a rhyddid, sy'n dibynnu ar ein hymateb i Grist (gweler 'Sul y Mamau' isod). | |
| 25ain Rhagfyr | ***DYDD NADOLIG*** | Genedigaeth ein Harglwydd, cyflawniad proffwydoliaethau, y Newyddion Da fod y Meseia yn dod â phrynedigaeth. | Roedd y proffwydi yn dyheu am y dydd pan fyddai'r Meseia yn adfer heddwch rhwng dynoliaeth a'r byd naturiol (Eseia 1:1-9), ail-uno nefoedd a daear, a'r Nadolig yw'r dydd pan fo hynny'n cael ei gyflawni. | '*Green tips for Christmas'* - erthygl cylchgrawn plwyf: https://greenchristian.org.uk/green-tips-for-christmas-by-barbara-echlin/ |
| 28ain Rhagfyr | ***GŴYL Y GWIRIONIAID SANCTAIDD/ DYDD O WEDDI AM FFOADURIAID*** | Cofio am y Teulu Sanctaidd yn ffoi i'r Aifft | Cofio am y cynnydd yn y ffoaduriaid 'Hinsawdd' ac amgylcheddol, a'n dyletswydd i ofalu am y rhai sy'n ceisio lloches rhag niwed. | |
| Sul 1af Ystwyll | ***SUL YR ARADR*** | Traddodi bendith ar aredig a pharatoi'r tir cyn hau cnydau'r flwyddyn | Amser i weddïo am baratoad amgylcheddol-gynaliadwy o'r tir ar gyfer hau, naill ai trwy aredig neu ddulliau eraill, ac am i ffermwyr ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer ein cyfnod, i ddiogelu cyfanrwydd y priddoedd. | Canolfan Arthur Rank: https://arthurrankcentre.org.uk/?sfid=226&_sft_category=church-life&_sfm_themes=Worship&_sft_post_tag=plough-sunday Adnoddau *Times and Seasons* Eglwys Loegr https://www.churchofengland.org/prayer-and-worship/worship-texts-and-resources/common-worship/churchs-year/times-and-seasons-4#mmm352 |
| | ***2IL SUL Y GRAWYS: SUL Y CREU*** | Dathlu rhodd Duw yn y Greadigaeth | Llawenhau yn rhodd Duw o greadigaeth 'dda', cydnabod lle dynoliaeth ochr yn ochr â/o fewn y greadigaeth, (Adda o *adamah*, dynol neu 'human' o *humus*), er hynny gyda chyfrifoldeb i ofalu ('amaethu a chadw'). | Mae hwefan '*Climate Sunday'* yn cynnwys llawer o adnoddau addas ar gyfer addoli https://www.climatesunday.org/ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1af Mawrth | ***DYDD GŴYL DEWI*** | Dathlu Nawddsant Cymru | Nawddsant llysieuwyr a figaniaid. Archwilio'r angen am ddietau gwahanol mewn byd sy'n newid, a lleihau'r cig a fwyteir fel y gall pawb fwyta a ffynnu. | |
| Y Grawys | ***Y GRAWYS*** | Edifeirwch ac Ymatal | Mae'r Grawys yn rhoi cyfle delfrydol i ni ailadeiladu ein perthynas â Duw y Creawdwr, â daear Duw, â'n cartref, ac â Christ trwy ba un y crëwyd pob peth. Mae'r hen draddodiad o fyw'n syml yn ystod y Grawys yn cysylltu'n agos ag anghenion ein planed - i ni ymgadw rhag bod yn farus, ac i ymddiried a llawenychu yn narpariaeth Duw. Y Grawys yw'r cyfnod pan ail-ddarganfyddir yr arfer o weddïo a byw mewn heddwch gyda'r greadigaeth (Marc 1:13), a chreu arferion i'n cynnal trwy'r flwyddyn sydd o'n blaen. | Rhai cyrsiau Grawys rhad ac am ddim:<br><br>'*Climate change and the purposes of God*' o '*Operation Noah*':<br>https://operationnoah.org/resources/lent-course-climate-change-purposes-god/<br>Astudiaeth feiblaidd "*Planetwise*" o '*A Rocha*':<br>https://atyourservice.arocha.org/en/planetwise-2008-resource-pack-bible-studies/ |
| Y Grawys 2 | ***DECHRAU PYTHEFNOS 'MASNACH DEG'*** | | Adeg i gydnabod y cysylltiadau rhwng cyfiawnder cymdeithasol a gofalu am y greadigaeth: mae cynhesu byd-eang gan amlaf yn effeithio'n gyntaf ar dlodion y byd. Mae 'Masnach Deg' yn help i ddatblygu gwytnwch amgylcheddol ac economaidd. | Tudalennau gwe Sefydliad Pythefnos Masnach Deg:<br>https://www.fairtrade.org.uk/get-involved/current-campaigns/fairtrade-fortnight/ |
| Y Grawys 4 | ***SUL Y MAMAU*** | Rhoi diolch am 'Y Fam Eglwys' neu yn gynyddol am famau | Gellir defnyddio'r dydd i ddiolch i Dduw am 'ein chwaer fam Ddaear' fel mae Sant Ffransis yn ei fynegi yng Nghantigl y Creaduriaid: Daear, ein 'mam' yn rhoi i ni enedigaeth gorfforol (o dan arweiniad Ysbryd Duw), ond y Ddaear hefyd fel ein chwaer yng Nghrist, cyd-greadur a chyd-bererin, yn ddiwahân mewn angen am brynedigaeth a rhyddid, sy'n dibynnu ar ein hymateb i Grist. | |
| 19eg Mawrth | ***JOESFF O NASARETH*** | Tad Iesu | Rhowch ddiolch am y rhai sydd wedi eu galw i weithio gyda ffrwythau'r Greadigaeth, yn eu ffurfio i wasanaethu anghenion dyn (nid rhai trachwant) mewn ffyrdd nad ydynt yn difwyno. | |
| 22ain Mawrth | ***DYDD DŴR Y BYD*** | | | |
| | ***DYDD GWENER Y GROGLITH*** | Pechod dyn yn peri dioddefaint a Chroeshoeliad Crist | Pechod dyn yn peri dioddefaint ac yn niweidio'r Greadigaeth | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***Sul y Pasg*** | Atgyfodiad Crist a chymod â Duw a rhyddhad o farwolaeth i ddynoliaeth | Dathlu atgyfodiad Crist yn ogystal â blaenffrwyth Creadigaeth adferedig, a chymod rhwng dynoliaeth a'r greadigaeth yn gymaint â dynoliaeth a Duw. | |
| 22ain Ebrill | ***'Dydd y Ddaear'*** | Dydd Rhyngwladol o gefnogaeth i ddiogelu'r amgylchedd | (Ar y dydd hwn y llofnodwyd cytundeb hinsawdd Paris). Dydd i gofio galwad Duw i stiwardio'r ddaear, i 'amaethu a chadw', neu 'wasanaethu a diogelu' y greadigaeth (Gen 2:15). | Gwasanaeth syml o'r gair yn dathlu'r Greadigaeth: https://arcentre.s3.eu-west-1.amazonaws.com/wp-content/uploads/2017/01/11124302/An-environmental-service.pdf |
| Y Pasg 6 | ***Sul y Gweddïau*** | Gweddi am ddiogelu'r cnydau. Hefyd, diogelu'r ffiniau, ond cefnogi cyfeillgarwch gyda chymdogion. 'Cerdded y terfynau'. | Cerdded ac ail-ddarganfod y plwyf fel llain o dir yn llawn o greaduriaid Duw yn ogystal â chasgliad o bobl; cwrdd â chymdogion, hybu natur gymdogol rhwng cymunedau a chenhedloedd. | *Times and Seasons* Eglwys Loegr: https://www.churchofengland.org/prayer-and-worship/worship-texts-and-resources/common-worship/churchs-year/times-and-seasons-4#mmm359<br>Canolfan Arthur Rank: https://arthurrankcentre.org.uk/?sfid=226&_sft_category=church-life&_sfm_themes=Worship&_sft_post_tag=rogation |
| | ***Pentecost/ Y Sulgwyn*** | Dyfodiad/hygyrchedd Ysbryd Duw i'r rhai sydd â ffydd yng Nghrist. | Cydnabod a llawenhau mai'r un yw'r ysbryd cariad sy'n bywiogi'r eglwys ag Ysbryd Duw sy'n llunio a chynnal y greadigaeth. Agweddau gwahanol ar waith cariad Duw yw cynnal yr Eglwys a chynnal y Greadigaeth. | |
| Dydd Iau wedi Sul y Drindod | ***Gŵyl Corff Crist (Diolch am y Cymun Bendigaid)*** | Diolchgarwch am y rhodd o'r Cymun Bendigaid, a phresenoldeb Crist yn/trwy'r sacrament. | Dydd i gofio bod Crist yn ymgorffori perthynas gywir rhwng Duw, y greadigaeth a dynoliaeth; ac mae'r Cymun Bendigaid yn cynnig i ni'r posibilrwydd o gyfranogi yn hynny. Achlysur yw'r Cymun Bendigaid pan fo rhoddion Duw yn y greadigaeth, gwaith dwylo dyn, a phresenoldeb Crist yn uno yng nghreadigaeth newydd y Deyrnas, fel rhagflas (blaenffrwyth) o'r hyn sydd i ddod ac fel moddion gras ac adnewyddiad i gyrraedd yno. | |
| | ***Sul y Cyfamod (y Drindod 1)*** | | Cofio a dathlu'r cyfamod cyntaf (Gen 9:8-17) a wnaeth Duw gyda dynoliaeth a'r holl greadigaeth i ofalu amdanynt yn dragwyddol (sefydlwyd cyn y cyfamod ag Abraham), ond torrwyd y cyfamod gan ddynoliaeth er niwed i bawb (Eseia 24:5-6). | |
| 1af Mehefin | ***Dydd Amgylchedd y Byd a Dydd Ffoaduriaid y Byd*** | | Dydd o weddi am y Greadigaeth: o ddiolchgarwch, o edifeirwch am ei niweidio, ac am ras i wella pethau. Dydd, hefyd, i weddïo am y nifer cynyddol o 'ffoaduriaid hinsawdd' wrth i bobl gael eu hadleoli oherwydd effeithiau newid hinsawdd (gweler hefyd 28ain Rhagfyr). | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2il Sul Gorffennaf | ***Sul y Môr*** | Diolch am roddion y cefnfor, a gweddïau ar ran y rhai sy'n gweithio ar y môr | Dydd i weddïo am ddiogelu'r amgylcheddau morol, iddynt barhau i adlewyrchu a mynegi cariad y Creawdwr. Dydd, hefyd, i gofio y 'gwasanaethau ecosystem' a roddir gan y cefnfor: y carbon-gipio a wneir gan algâu a $CO_2$ wedi'i ddiddymu; y bwyd o'r môr, ceryntau'r cefnforoedd yn cylchredeg ac yn rhannu maetholion ynni'r haul. | |
| 1af Awst | ***Calan Awst*** | Lamas neu 'Offeren y Dorth': diolchgarwch am flaenffrwyth y cynhaeaf gwenith | Adeg i fynegi diolchgarwch am y 'blaenffrwyth' rydym yn ei dderbyn drwy'r flwyddyn o wahanol rannau o'r byd. Neu, dydd i ddathlu 'tymoroldeb', a'r angen i ni fyw o fewn rhythmau naturiol twf a chynhaeaf i leihau milltiroedd bwyd. | '*Times and Seasons'* Eglwys Loegr: https://www.churchofengland.org/prayer-and-worship/worship-texts-and-resources/common-worship/churchs-year/times-and-seasons-4#mmm372 |
| 1af Med i 4ydd Hydref | ***Tymor y Greadigaeth*** | Tymor i'n cynorthwyo i adnewyddu ac ail-werthuso ein perthynas â'n Creawdwr a'r holl greadigaeth trwy edifarhau, adfywio a llawenhau gyda'n gilydd | Mae'r tymor yn dechrau ar 1af Medi, Dydd Gweddi Byd-eang ar gyfer Gofal am y Greadigaeth (a sefydlwyd gan y Pab Ffransis). Mae'n gorffen ar 4ydd Hydref, gŵyl Sant Ffransis, nawddsant Ecoleg yn ôl traddodiad Eglwys Rufain (gweler isod). Mae i bob blwyddyn thema benodol, a chynhyrchir adnoddau sy'n defnyddio darlleniadau gosod y llithiadur ar gyfer pob Sul ac yn tynnu ohonynt thema sy'n berthnasol i ofal am y greadigaeth. | https://seasonofcreation.org/ |
| 14eg Medi | ***Y Groes Sanctaidd*** | Y groes fel arwydd o iachawdwriaeth | Dydd i ddathlu'r groes fel arwydd o iachawdwriaeth i'r holl greadigaeth, fel yn 1 Col:20: 'gwelodd Duw yn dda trwy ei waed ar y groes i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd'. | |
| 4ydd Medi | ***Sant Ffransis*** | Ffransis yr asgetig llawen, carwr anifeiliaid, sefydlydd yr urddau Ffransisgaidd | Ffransis, nawddsant ecoleg, yn gweld yn y greadigaeth (planhigion, anifeiliaid, cyrff nefol, a grymoedd natur) gyd-bererinion, a brodyr a chwiorydd yng Nghrist. Trwy hyn roedd Ffransis yn gyfrwng i adennill natur i Grist; gan waredu'r drefn a grewyd o unrhyw addoli natur a oedd wedi goroesi ers Paganiaeth. | Myfyrdod ar Sant Ffransis gab Cymorth Cristnogol: https://www.christianaid.org.uk/resources/churches/weekly-worship-sunday-6-october |
| 17eg i 24ain Hydref | ***Wythnos Un Byd*** | Gweithio dros gyfiawnder byd-eang a gofalu am y ddaear (wedi ei ganoli o gwmpas pen-blwydd sefydlu'r Cenhedloedd Unedig) | Caiff yr wythnos ei threfnu gan Bartneriaeth o Gyrff Anllywodraethol a grwpiau ffydd sy'n gweithio dros gyfiawnder byd-eang a gofal am y Ddaear, gyda phen-blwydd sefydlu'r Cenhedloedd Unedig ar 24ain Hydref yn ganolbwynt i'r wythnos. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 24ain Hydref | ***SUL Y BEIBL*** | Diolchgarwch am yr Ysgrythurau | Dydd i ddathlu'r Beibl fel llyfr adnoddau yn ogystal â llyfr ffynonellau, sy'n llawn mor berthnasol i'n cyfyng-gyngor presennol o ddinistr amgylcheddol, drwy ffyniant eco-ddiwinyddiaeth. | Erthygl yn y *Church Times*: **Eco-theology is not new: it's foundational to faith** https://www.churchtimes.co.uk/articles/2013/13-september/comment/opinion/eco-theology-is-not-new-it-s-foundational-to-faith |
| | ***TYMOR Y DEYRNAS*** | Calonnau dynol yn ddarostyngedig i reolaeth Crist/ rhag-ddisgwyl cyrhaeddiad llawn Teyrnas Dduw | Tymor i gofio y bydd y greadigaeth wedi'i hadfer i'w daioni, ei harddwch a'i ffrwythlondeb gwreiddiol yn Nheyrnas Crist. | |